**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

21 Rhagfyr 2022

Annwyl Dr Goodall,

Ymchwiliad i ariannu Comisiynwyr

Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd yn casglu gwybodaeth am ariannu Comisiynwyr yng Nghymru. Mae hyn yn dilyn adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022 yn ymwneud â'i waith craffu blynyddol ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Yn ei adroddiad, argymhellodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol:

> *...bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cynnal adolygiad o drefniadau adnoddau Comisiynwyr Cymru. Gallai'r adolygiad hwn ystyried a oes modd sicrhau unrhyw arbedion maint drwy rannu rhai swyddogaethau cefn swyddfa a staff.*

Er mwyn helpu gyda hyn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybodaeth am y materion a ganlyn:

- Proses cymeradwyo'r gyllideb:
    - Proses y gyllideb ar gyfer cytuno ar yr amcangyfrifon a gyflwynwyd gan y Comisiynwyr.
    - Pa ganllawiau y mae Gweinidogion Cymru/swyddogion Llywodraeth Cymru yn eu darparu i'r Comisiynwyr cyn iddynt gyflwyno eu hamcangyfrifon ar gyfer y flwyddyn i ddod, fel gwybodaeth i helpu i flaengynllunio ariannol, gan gynnwys asesiad gorau Llywodraeth Cymru o lefel y cyllid sydd ar gael yn y dyfodol a ffactorau i'w hystyried wrth baratoi'r amcangyfrifon.

- Pa broses sydd ar waith i gytuno ar unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif.
- Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft 2022-23 a Chyllideb aml-flwyddyn gyntaf Cymru gyntaf ers 2017. I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn symud i ddull 'Tymor Llywodraeth' o ariannu ar gyfer Comisiynwyr i hwyluso cynllunio tymor hwy a mwy o sefydlogrwydd, gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, tra'n cydymffurfio â gofyniad statudol i'r Comisiynwyr gyflwyno amcangyfrif i Weinidogion Cymru o leiaf bum mis cyn y flwyddyn ariannol berthnasol.
- A yw'r broses o gymeradwyo'r gyllideb yn cynnwys unrhyw adolygiad, ar draws y Timau Partneriaeth (noddwyr) o fewn adrannau Llywodraeth Cymru, o'r amcangyfrifon y mae Comisiynwyr Cymru yn eu cyflwyno bob blwyddyn. A yw hyn yn ceisio sicrhau cysondeb o ran ymagwedd, cyn belled ag y bo'n briodol ac yn ymarferol, ac os felly sut.

- Cymariaethau cyllid:

  - Yn ei adroddiad, daeth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i'r casgliad:

    *...nodwn sylwadau'r Comisiynydd fod anghysondeb yn y cyllid rhwng Comisiynwyr Cymru. Er ein bod yn cydnabod bod gan bob Comisiynydd rolau a chyfrifoldebau gwahanol ac y bydd anghenion o ran adnoddau yn amrywio yn unol â hynny, nid oes eglurhad digonol i'r cyfiawnhad y tu ôl i'r dyraniadau adnoddau gwahanol, ac mae angen craffu pellach ar hyn. Credwn mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw mynd ati i'n well i gyfiawnhau sut y rhoddir adnoddau i bob Comisiynydd.*

    Eich barn ar gasgliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch sut y caiff pob Comisiynydd adnoddau.

  - A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o'r cyllid a ddyrennir ar draws y Comisiynwyr a/neu eu sefyllfaoedd ariannol priodol. Os felly, allwch chi roi manylion.

  - Nodwn ymateb y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol (Mai 2022) a oedd yn dweud ei bod wedi gofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru archwilio'r "cwmpas a'r angen am werthusiad o'r Ddeddf, a allai gynnwys asesiad o rôl a swyddogaethau'r Comisiynydd". A yw swyddogion wedi gwneud y gwaith hwn, ac a yw'r Gweinidog wedi penderfynu yn ei sgil i werthuso'r Ddeddf. Byddai'r Pwyllgor hwn yn croesawu rhagor o wybodaeth am y gwaith, gan gynnwys yr amseriad a'r cwmpas arfaethedig.

  - A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw adolygiadau, fel gwaith craffu neu werthuso ôl-ddeddfwriaethol, sy'n ystyried rolau'r Comisiynwyr eraill yng Nghymru a/neu eu costau o gymharu â'r amcangyfrifon a wnaed ar yr adeg y sefydlwyd pob rôl, gyda rhesymau i egluro unrhyw amrywiadau (lle bo'n briodol).

- Asesiad Llywodraeth Cymru o effaith dynodiad swyddfeydd y Comisiynwyr o dan y newidiadau i Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 ar eu sefyllfa ariannol bresennol ac yn y dyfodol. Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i gefnogi'r Comisiynwyr i symud i'r trefniadau newydd.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth yw 31 Ionawr 2023. Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd yn dymuno cael tystiolaeth lafar gan dystion.

Mae canllawiau ar baratoi tystiolaeth ysgrifenedig i'w cael ar y wefan y Senedd.

Datgelu gwybodaeth

Cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor, gwnewch yn siŵr eich bod wedi ystyried y polisi'r Senedd ar ddatgelu gwybodaeth. Fel arall, gellir gofyn am gopi caled o'r polisi hwn trwy gysylltu â'r Clerc, Fay Bowen (0300 200 6565) neu SeneddPAPA@senedd.cymru

Yn gywir

Mark Isherwood AS, Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor